SESIWN 5: HAWL I IECHYD DA – YSGRIFENNU ARAITH SY'N PERSWADIO

Oedran : 8–11 oed

Amser: 1 awr

Amlinelliad

Yn eu rôl fel aelodau o glwb iechyd ysgol yn Sierra Leone, bydd y dysgwyr yn atgyfnerthu eu dysgu drwy wneud araith i berswadio aelodau o'r gymuned i fuddsoddi mewn adeiladu toiledau twll yn y ddaear a phympiau dŵr. Noder y bydd angen i'r dysgwyr gyfeirio at y nodiadau a wnaed ganddynt yn Sesiwn 4 am syniadau allweddol.

Amcanion dysgu	**Canlyniadau dysgu**
• Ysgrifennu araith sy'n perswadio, wedi'i strwythuro ac yn seiliedig ar ddysgu blaenorol, gan gynnwys iaith emosiynol a chysyllteiriau. • Rhestru'r ffyrdd y mae cymuned â mynediad cyfyngedig at ddŵr glân a glanweithdra yn ceisio goresgyn yr heriau hyn.	• Yn eu rôl, bydd y dysgwyr yn ysgrifennu araith sy'n perswadio, wedi'i strwythuro, yn cynnwys iaith emosiynol a chysyllteiriau i berswadio aelodau o'u cymuned ddychmygol yn Sierra Leone i fuddsoddi mewn adeiladu toiledau twll yn y ddaear a phympiau dŵr.
Cwestiynau allweddol	**Adnoddau**
• Beth yw pwrpas clybiau iechyd ysgol yn Sierra Leone? • Pwy yw'r gynulleidfa darged ar gyfer eich araith? • Sut fyddwch chi'n strwythuro eich araith? • Ydych chi wedi cynnwys nodweddion sy'n perswadio yn eich araith?	• *Sioe sleidiau Hawliau Plant:* sleidiau 17 a 31 • *Syniadau allweddol* • *Siart syniadau allweddol* • *Ysgrifennu araith i berswadio* • Nodiadau'r dysgwyr eu hunain o Sesiwn 4

Cysylltiadau â'r cwricwlwm

Cymru
Llafaredd
Sgiliau:
Gwerthuso eu siarad a'u gweithgareddau drama eu hunain ac eraill, a datblygu dealltwriaeth sut i wella, gan ystyried sut mae siaradwyr yn addasu eu geirfa, tôn, cyflymdra ac arddull i weddu i amrywiol sefyllfaoedd.
Ysgrifennu
Sgiliau:
Defnyddio nodweddion testunau llenyddol ac anllenyddol yn eu hysgrifennu eu hunain, addasu eu harddull i weddu i'r gynulleidfa a'r diben.
Defnyddio terminoleg a geirfa addas i ystyried a gwerthuso eu gwaith eu hunain a gwaith eraill.

Amlinelliad o'r gweithgaredd

Cyflwyniad *(5 mun)*
Digwyddiad i godi ymwybyddiaeth yn y gymuned

- Dangoswch sleid 31 a gofynnwch i'r dysgwyr geisio cofio beth yw pwrpas clybiau iechyd ysgol yn Sierra Leone. Dylech atgoffa'r dysgwyr fod gwella iechyd yn gymorth i ddiwallu hawl pob plentyn i iechyd da (Erthygl 24 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn – gweler sleid 17).

- Dylid atgoffa'r dysgwyr eu bod yn dychmygu eu bod yn chwarae rôl aelodau o glwb iechyd ysgol yn Sierra Leone a'u bod wedi cael cais i gymryd rhan mewn digwyddiad i godi ymwybyddiaeth yn y gymuned. Eglurwch y bydd angen iddyn nhw ysgrifennu araith i'w chyflwyno yn y digwyddiad hwn, sy'n anelu at annog aelodau o'r gymuned i fuddsoddi mewn adeiladu toiledau twll yn y ddaear a phympiau dŵr newydd. Gofynnwch pwy fydd cynulleidfa darged areithiau'r dysgwyr (*oedolion a phlant sy'n byw yn yr un pentref â'r siaradwr neu mewn pentrefi cyfagos*).

Gweithgaredd 5.1 *(15 mun)*
Syniadau allweddol

- Rhowch gopi o'r *Syniadau allweddol* i bob dysgwr. Eglurwch mai ysgogiadau i'w hatgoffa o'r prif bwyntiau i'w cynnwys yn eu haraith yw'r syniadau allweddol hyn.

- Gofynnwch i'r dysgwyr, fesul pâr, dorri allan y cardiau syniadau allweddol a rhoi'r cardiau cyflwyno a chasgliad i un ochr. Yna, gofynnwch i'r dysgwyr roi gweddill y cardiau mewn dau bentwr: un yn cynnwys syniadau allweddol am doiledau twll yn y ddaear, a'r llall am ffynhonnau dŵr a phympiau dŵr.

- Yna, dylai'r dysgwyr drefnu pob pentwr o gardiau yn ddau grŵp pellach, fel y dangosir ar y *Siart syniadau allweddol*. Efallai yr hoffech gyfeirio at y daflen *Nodiadau cefndir i athrawon* i gael yr atebion cywir. Erbyn y diwedd, dylai'r dysgwyr fod â rhestr glir o broblemau neu anfanteision defnyddio'r ffynhonnau a'r toiledau sy'n bodoli eisoes a manteision y toiledau twll yn y ddaear a'r pympiau newydd. Eglurwch i'r dysgwyr fod ganddyn nhw bellach bedair colofn o syniadau allweddol, a fydd yn sail i'w hareithiau.

- Gofynnwch i'r dysgwyr geisio cofio'r hyn a ddysgon nhw am strwythuro dadl i berswadio yn Sesiwn 1 (*datblygu eu dadl drwy gyfres o bwyntiau rhesymegol a dechrau a gorffen â datganiad cryf*). Trafodwch sut y bydd y dysgwyr yn strwythuro'u haraith. Awgrymwch eu bod yn rhifo neu'n trefnu eu cardiau syniadau allweddol mewn trefn resymegol a fydd yn ffurfio strwythur eu haraith i berswadio.

- Gorffennwch drwy ofyn i'r dysgwyr ble ddylai cardiau'r cyflwyniad a'r casgliad gael eu cynnwys. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y syniadau allweddol ar y ddau gerdyn hyn gyda'u partneriaid, gan ddefnyddio'u trafodaethau yn Sesiwn 4.

Gwahaniaethu

Haws: Gall y dysgwyr weithio mewn grwpiau bach i strwythuro'u hareithiau. Arweiniwch eu meddyliau tuag at y strwythur a ddangosir yn *Ysgrifennu araith i berswadio*.

Anoddach: Gofynnwch i'r dysgwyr gyflwyno'u syniadau allweddol eu hunain ar gyfer yr araith yn seiliedig ar yr hyn a ddysgon nhw am heriau ac atebion yn y sesiwn blaenorol.

Gweithgaredd 5.2 *(30 mun)*
Ysgrifennu araith i berswadio

- Rhowch y gwaith wnaethon nhw yn Sesiwn 4 ar fanteision y toiledau twll yn y ddaear a'r pympiau dŵr newydd i'r dysgwyr. Eglurwch y dylent gynnwys y brawddegau hyn, sy'n cynnwys iaith emosiynol, yn eu haraith. Gofynnwch i'r dysgwyr pam ddylen nhw wneud hyn.

- Anogwch y dysgwyr i ddefnyddio'r 'banc geiriau' a luniwyd ganddynt yn Sesiynau 3 a 4 i gael ysgogiadau ar gyfer iaith perswadio a'r cysyllteiriau i'w cynnwys yn eu haraith.

- Gofynnwch i'r dysgwyr ysgrifennu eu hareithiau gan ddilyn y strwythur a benderfynwyd yng Ngweithgaredd 1.1 ac ymhelaethu ar y syniadau allweddol o'r hyn a ddysgon nhw yn Sesiwn 4.

- Gorffennwch drwy roi copi o *Ysgrifennu araith i berswadio* i bob un o'r dysgwyr. Gofynnwch iddyn nhw ddarllen eu haraith ac asesu eu gwaith eu hunain, gan ystyried i ba raddau maen nhw'n teimlo'u bod wedi cyflawni'r gofynion. Gallai'r dysgwyr amlygu'r dystiolaeth neu wneud nodiadau ar y dystiolaeth ar gyfer pob gofyniad. Efallai y byddai'n well gennych roi'r dewis i'r dysgwyr o asesu gwaith ei gilydd.

Gwahaniaethu

Haws: Defnyddiwch ysgrifennu ar y cyd i lunio'r cyflwyniad ac yna defnyddio syniadau a gynigir ar gyfer geiriau cyntaf brawddegau i ddechrau'r paragraff cyntaf.

Anoddach: Pwysleisiwch yr angen i ddefnyddio amrywiaeth o enghreifftiau o iaith sy'n perswadio a chysyllteiriau o'r 'banc geiriau'. Awgrymwch y gall y dysgwyr hefyd gynnwys dyfeisiau eraill i atgyfnerthu eu dadl, er enghraifft:

  - Allwch chi ofyn cwestiwn rhethregol i'ch cynulleidfa?
  - Ydych chi wir yn meddwl bod …?
  - Allwch chi bwysleisio pwynt drwy gysylltu tair eitem gyda'i gilydd? *Er enghraifft, "Mae ___, a___ a ___ i gyd yn hanfodol ar gyfer iechyd da oherwydd …"*

Sesiwn llawn *(10 mun)*

- Dewiswch rai o'r dysgwyr i ddarllen eu hareithiau i weddill y dosbarth. Gofynnwch i'r dysgwyr eraill nodi pan fyddan nhw'n clywed iaith sy'n ceisio perswadio. A all y dysgwyr roi rhesymau pam mae'r iaith yn ceisio perswadio?

Syniadau pellach

- Cynhaliwch ddigwyddiad ffug i godi ymwybyddiaeth yn y gymuned yn eich dosbarth, lle mae cyfle i'r dysgwyr ddarllen eu hareithiau fel y gall eraill eu clywed a chynnig sylwadau ar y rhannau arbennig sy'n perswadio, yn eu barn nhw. A all y dysgwyr roi rhesymau pam mae'r iaith yn un sy'n ceisio perswadio?

Telerau defnyddio

Hawlfraint © Oxfam GB
Gallwch ddefnyddio'r ffotograffau hyn a'r wybodaeth gysylltiedig at ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y byddwch yn eu defnyddio, rhaid i roi credyd i'r ffotograffydd a enwir ar gyfer y ddelwedd honno ac i Oxfam. Nid oes caniatâd i ddefnyddio'r delweddau a'r wybodaeth gysylltiedig at ddibenion masnachol neu'r tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae'r holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn ymwneud â'r dyddiad a'r amser y cynhaliwyd y gwaith project.
.

Nodiadau cefndir i athrawon

Dyma gynllun posib ar gyfer araith sy'n ceisio perswadio:

Cyflwyniad: Pam mae iechyd da yn bwysig?

- *Er enghraifft: Mae iechyd da yn golygu y gallwch weithio, dysgu a chwarae heb gael eich cyfyngu gan broblemau iechyd.*

Toiledau

Problemau ar hyn o bryd:

- Yn rhy agos at ffynonellau dŵr a chartrefi, felly mae'r dŵr yn cael ei lygru
- Mae gwastraff dynol a gwastraff anifeiliaid yn mynd i mewn i'r ffynonellau dŵr, felly mae'r dŵr yn cael ei lygru

Toiledau twll yn y ddaear newydd

Manteision:

- Y pellter cywir oddi wrth y ffynhonnell ddŵr a chartrefi i osgoi llygredd
- Yn cael eu hailgloddio bob chwe mis i osgoi gorlenwi

Ffynhonnau dŵr

Problemau ar hyn o bryd:

- Yn agored i gael eu heintio gan anifeiliaid, felly mae'r dŵr yn cael ei lygru
- Ddim yn ddigon dwfn ac yn cael eu gorddefnyddio, felly maen nhw'n sychu
- Dyw'r dŵr ddim yn lân, felly nid yw'n ddiogel i'w yfed

Pympiau dŵr newydd

Manteision:

- Mae concrit yn selio'r ardal o gwmpas y pwmp fel nad yw'n cael ei heintio
- Mae'r pympiau'n cael dŵr yn is i lawr, felly maen nhw'n llai tebygol o sychu neu gael eu heintio
- Mae'r ffi cynnal a chadw yn sicrhau bod yr offer yn cael ei drwsio a'r dŵr yn cael ei brofi bob ychydig wythnosau i wneud yn siŵr ei fod yn ddiogel i'w yfed

Casgliad: Pam mae rhoi blaenoriaeth i iechyd da yn fuddsoddiad call i deulu?

- *Er enghraifft: Gyda llai o salwch yn y teulu, bydd llai o foddion i'w prynu, bydd y plant yn gallu mynd i'r ysgol a bydd y teulu'n ddigon iach i weithio.*

Syniadau allweddol

Cyflwyniad: Pam mae iechyd da yn bwysig?	Casgliad: Pam mae rhoi blaenoriaeth i iechyd da yn fuddsoddiad call i deulu?
FFYNHONNAU A PHYMPIAU DŴR **Yn agored i gael eu heintio gan anifeiliaid, felly mae'r dŵr yn cael ei lygru**	TOILEDAU TWLL YN Y DDAEAR **Y pellter cywir oddi wrth y ffynhonnell ddŵr a chartrefi i osgoi llygredd**
FFYNHONNAU A PHYMPIAU DŴR **Ddim yn ddigon dwfn ac yn cael eu gorddefnyddio, felly maen nhw'n sychu**	TOILEDAU TWLL YN Y DDAEAR **Mae gwastraff dynol a gwastraff anifeiliaid yn mynd i mewn i'r ffynonellau dŵr, felly mae'r dŵr yn cael ei lygru**
FFYNHONNAU A PHYMPIAU DŴR **Mae concrit yn selio'r ardal o gwmpas y pwmp fel nad yw'n cael ei heintio**	TOILEDAU TWLL YN Y DDAEAR **Yn cael eu hailgloddio bob chwe mis i osgoi gorlenwi**
FFYNHONNAU A PHYMPIAU DŴR **Dyw'r dŵr ddim yn lân, felly nid yw'n ddiogel i'w yfed**	TOILEDAU TWLL YN Y DDAEAR **Yn rhy agos at ffynonellau dŵr a chartrefi, felly mae'r dŵr yn cael ei lygru**
FFYNHONNAU A PHYMPIAU DŴR **Mae'r pympiau'n cael dŵr yn is i lawr, felly maen nhw'n llai tebygol o sychu neu gael eu heintio**	FFYNHONNAU A PHYMPIAU DŴR **Mae'r ffi cynnal a chadw yn sicrhau bod yr offer yn cael ei drwsio a'r dŵr yn cael ei brofi bob ychydig wythnosau i wneud yn siŵr ei fod yn ddiogel i'w yfed**

Siart syniadau allweddol

Problemau'r ffynhonnau dŵr presennol	**Manteision pympiau dŵr newydd**
Problemau'r toiledau presennol	**Manteision y toiledau twll yn y ddaear newydd**

Ysgrifennu araith i berswadio

Darllenwch eich gwaith yn ofalus. Ydych chi wedi cynnwys yr holl nodweddion hyn yn eich araith?

NODWEDD	HUNANASESIAD
Lefel Testun • Ydw i wedi dechrau fy araith gyda chyflwyniad?	
• Ydw i wedi rhannu fy ysgrifennu yn baragraffau, ag un 'syniad allweddol' clir i bob paragraff?	
• Ydw i wedi datblygu'r 'syniad allweddol' drwy ddefnyddio fy ngwybodaeth a'm meddyliau fy hun?	
• Ydw i wedi gorffen fy araith gyda chasgliad?	
Lefel Brawddeg • Ydw i wedi defnyddio gwahanol gysyllteiriau i gysylltu fy syniadau? Er enghraifft: o Cysyllteiriau i roi rhesymau o Cysyllteiriau i ychwanegu neu drefnu syniadau o Cysyllteiriau i gyflwyno safbwyntiau gwahanol	
• Ydw i wedi defnyddio dyfeisiau sy'n perswadio? Er enghraifft: o Cwestiwn rhethregol o Cadwyn o dri phwynt wedi'u cysylltu â'i gilydd er mwyn pwyslais	
Lefel Gair • Ydw i wedi cynnwys iaith perswadio? Er enghraifft: o Rydyn ni i gyd yn gytûn yn ein cred fod … o Rydyn ni'n credu'n gryf fod … o Rydyn ni'n credu'n bendant fod …	
• Ydw i wedi cynnwys iaith emosiynol? Er enghraifft: o Bendigedig o Cyffrous o Gwych o Ardderchog o Godidog o Unigryw o Gwefreiddiol	
• Ydw i wedi defnyddio'r gramadeg, y sillafu a'r atalnodi cywir?	